

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 No. 414 (Cy. 96)

**YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
GWASTRAFF, CYMRU**

**Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau
Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**

Gofynion sifftio wedi eu

bodloni - - - - - 18 Chwefror 2019

Gwnaed - - - - - 28 Chwefror 2019

Gosodwyd gerbron Cynulliad

Cenedlaethol Cymru - - - 1 Mawrth 2019

Coming into force in accordance with regulation 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

- (a) mewn perthynas â Rhan 1, y pwerau a grybwyllir ym mharagraffau (b) ac (c);
- (b) mewn perthynas â Rhan 2, adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1);
- (c) mewn perthynas â gweddill y Rheoliadau, paragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(2).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi (3) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran—

- (d) mesurau sy'n ymwneud ag atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff a rheoli pecynnu a gwastraff pecynnu(4);
- (e) atal, lleihau a rheoli gwastraff(5).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (yn ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

- (1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), adran 27(1)(a) a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), yr Atodlen, Rhan 1. Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), adran 1 o'r diwrnod ymadael (gweler adran 20 o'r Ddeddf honno).
- (2) 2018 p.16.
- (3) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi o ran y mater hwnnw neu at y diben hwnnw.
- (4) O.S. 2005/850, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Yn rhinwedd paragraff 28(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae O.S. 2005/850 yn cael effaith fe pe bai wedi ei wneud o dan adran 59(1) o'r Ddeddf honno.
- (5) O.S.2010/1552.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Deuant i rym fel a ganlyn—

- (a) o ran y Rhan hon a Rhan 2, 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y maent wedi eu gosodwyd;
- (b) o ran y gweddill, ar y diwrnod ymadael.

RHAN 2

Diwygio cyfeiriadau sydd wedi dyddio

Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

2.—(1) Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010(6) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 9(3), ar y diwedd mewnosoder “, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU(7)”.

(3) Yn adran 17(2), ar y diwedd mewnosoder “, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997(8)”.

Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004

3.—(1) Mae Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 200(9) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “cyfleuster gwastraff” (“*waste facility*”) yn lle “fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2015/1127” rhodder “fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997”.

(3) Yn rheoliad 7(10), ar y diwedd mewnosoder “fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor 2011/97/EU”.

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

4.—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(10) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 47(5B), ar ôl “gwastraff,” mewnosoder “fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU”.

(3) Yn rheoliad 48(6B), ar ôl “gwastraff,” mewnosoder “fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU”.

(6) 2010 mccc 8, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(7) OJ Rhif L 328, 10.12.2011, t 49.

(8) OJ Rhif L 150, 14.6.2017, t 1.

(9) O.S. 2004/1490 (Cy. 155), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(10) O.S. 2005/1806 (Cy. 138), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141) ac O.S. 2018/721 (Cy. 140); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

5. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011(11) yn y diffiniad o “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (“*the Waste Framework Directive*”) yn lle “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor (EU) 2015/1127” rhodder “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997”.

RHAN 3

Diwygio deddfwriaeth sylfaenol

Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

6.—(1) Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010(12) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 9(3) (fel y’i diwygir gan reoliad 3(2)), ar y diwedd mewnosoder—
“,a’i darllen fel pe bai—

(a) yn Erthygl 2—

(i) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (a)—

“(a) ‘waste’ has the meaning given by Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive;”;

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (c)—

“(c) ‘hazardous waste’ has the meaning given in Article 3(2) of the Waste Framework Directive.”;

(b) yn Erthygl 3(2), “Without prejudice to existing Community legislation,” wedi ei hepgor.”.

(3) Yn adran 9A(3)—

(a) yn y diffiniad o “peiriant llosgi gwastraff” (“*waste incineration plant*”), yn lle “o’r Gyfarwyddeb honno” rhodder “o’r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol”;

(b) yn y diffiniad o “peiriant cydlosgi gwastraff” (“*waste co-incineration plant*”) yn lle “o Gyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a’r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig) (Ail-lunio)” rhodder “o’r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol”;

(c) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(4) Yn yr adran hon, ystyr “Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol” yw Cyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a’r Cyngor ar allyriadau diwydiannol(13), gan ei darllen fel pe bai yn Erthygl 3—

(a) ym mhwynt (37), “the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “[Directive 2008/98/EC](#) of the European Parliament and of the Council of 19 November 2008 on waste”;

(b) ym mhwynt (38), “the Waste Framework Directive” wedi ei roi yn lle “[Directive 2008/98/EC](#)”.

(11) O.S. 2011/1014 (Cy. 152), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/691 (Cy. 189); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(12) 2010 mccc 8. Mewnosodwyd adran 9A gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 67.

(13) OJ Rhif L 334, 17.12.2010, t 17, fel y’i cywirwyd gan gorigendwm (OJ Rhif L 158, 19.6.2012, t 25).

(5) Wrth ddarllen y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn unol ag is-adran (4), mae i gyfeiriadau yn y Gyfarwyddeb honno at y “Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (fel y’u mewnosodir gan is-adran (4)) yr ystyr a roddir gan adran 17(2) o’r mesur hwn.”.

(4) Yn adran 17—

- (a) yn is-adran (2) (fel y’i diwygir gan reoliad 3(3)), ar y diwedd mewnosoder “, a chan ei ddarllen yn unol ag is-adrannau (3) i (8)”;
- (b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(3) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy’n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy’n rhoi disgrisiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i’w ddarllen fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â’r rhwymedigaeth honno neu’n cael arfer y disgrisiwn hwnnw o ran Cymru.

(4) Mae Erthygl 2 i’w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

- (i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “retained EU law” wedi ei roi yn lle “other Community legislation”;
- (ii) ym mhwyntiau (b) a (c), “Regulation (EC) No 1069/2009” wedi ei roi yn lle “Regulation (EC) No 1774/2002”;
- (iii) ym mhwynt (d), “the Mining Waste Directive (gweler adran 17A)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Directive 2006/21/EC” hyd at y diwedd;
- (b) ym mharagraff 3, y geiriau o “Without prejudice” hyd at “Community legislation,” wedi eu hepgor;
- (c) paragraff 4 wedi ei hepgor.

(5) Mae Erthygl 5 i’w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i’w darllen fel pe bai—

- (a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;
- (b) ym mharagraff 4—
 - (i) yn y frawddeg gyntaf, “Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, [Commission Regulation \(EU\) No 1179/2012](#) or [Commission Regulation \(EU\) No 715/2013](#)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Where criteria” hyd at “paragraphs 1 and 2”;
 - (ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.

(7) Mae Erthygl 7 i’w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1—

- (i) y frawddeg gyntaf a’r ail frawddeg wedi eu hepgor;
- (ii) yn y drydedd frawddeg, “shall, subject to paragraph 1A, be binding” wedi ei roi yn lle “shall be binding”;
- (b) ar ôl paragraff 1, mewnosoder—

“**1A.** Paragraph 1 is subject to—

- (a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005⁽¹⁴⁾ that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;
 - (b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005⁽¹⁵⁾ that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;
 - (c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulations 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005⁽¹⁶⁾;
 - (d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990 (lists of waste displaying hazardous properties)⁽¹⁷⁾;
- (c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;
- (d) ar ôl paragraff 6 mewnosoder—
- “6A.** In this Article, the “list of waste” means the list established by Commission [Decision 2000/532/EC](#).”;
- (e) paragraff 7 wedi ei hepgor.
- (8) Mae Atodiad 3 i’w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, “in the Member States” wedi ei hepgor.”
- (5) Ar ôl adran 17 mewnosoder—

“Ystyr “y Gyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio”

17A.—(1) Wrth ddarllen Erthygl 2 o’r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yn unol ag adran 17(4), ystyr “y Gyfarwydddeb Gwastraff Mwyngloddio” (“*the Mining Waste Directive* (fel y’i mewnosodwyd gan baragraff (a)(iii) o adran 17(4)) yw Cyfarwydddeb [2006/21/EC](#) Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu⁽¹⁸⁾, gan ei darllen yn unol ag is-adrannau (2) i (5).

(2) Mae Erthygl 2 i’w darllen fe pe bai—

- (a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwydddeb 2000/60/EC⁽¹⁹⁾ yn gyfeiriad at yr Erthygl honno o’i darllen yn unol ag is-adran (4);
- (b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.

(3) Mae Erthygl 3(1) i’w darllen fel pe bai “Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Article 1(a) of [Directive 75/442/EEC](#)”.

(4) At ddibenion is-adran (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwydddeb 2000/60/EC i’w darllen fel pe bai—

- (a) y cyfeiriad cyntaf at “Member States” yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru;

⁽¹⁴⁾ Diwygiwyd rheoliad 8(1) gan [O.S. 2011/971 \(Cy.141\)](#) ac [O.S. 2015/1417 \(Cy.141\)](#).

⁽¹⁵⁾ Diwygiwyd rheoliad 9(1) gan [O.S. 2011/971 \(Cy.141\)](#) ac [O.S. 2015/1417 \(Cy.141\)](#).

⁽¹⁶⁾ Diwygiwyd rheoliadau 8(2) a 9(2) gan [O.S. 2015/1417 \(Cy.141\)](#)

⁽¹⁷⁾ [1990 p.43](#). Mewnosodwyd adran 62A gan [O.S. 2005/894](#), a’i diwygio gan [O.S. 2011/988](#), [2015/1360](#), [2018/721 \(Cy.140\)](#) a [2018/942](#).

⁽¹⁸⁾ OJ Rhif L 102, 11.4.2006, t 15, fel y’i diwygiwyd gan Reoliad (EC) [Rhif 596/2009](#) Senedd Ewrop a’r Cyngor (OJ Rhif L 118, 18.7.2009, t 14).

⁽¹⁹⁾ OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t 1, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwydddeb y Comisiwn 2014/101/EU (OJ Rhif L 311, 31.10.2014, t 32).

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar y diwedd—

“and “environmental objectives”, in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017(20) has the same meaning as in those Regulations.”

(5) Wrth ddarllen y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio yn unol ag is-adran (3), mae i'r cyfeiriad yn y Gyfarwyddeb honno at y “Waste Framework Directive” (fel y'i mewnosodwyd gan is-adran (3)) yr ystyr a roddir gan adran 17(2) o'r mesur hwn.”

RHAN 4

Diwygio is-ddeddfwriaeth

Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004

7.—(1) Mae Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004(21)wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)(22), yn y diffiniad o “cyfleuster gwastraff” (“*waste facility*”) (fel y'i hamnewidir gan reoliad 4(2)), yn lle “Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997”, rhodder “Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff”.

(3) Ar ôl y diffiniad o “gwastraff trefol a gasglwyd” (“*collected municipal waste*”) mewnosoder—

“ystyr “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (“*the Waste Framework Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff(23) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997(24), gan ei darllen yn unol â pharagraffau (3) i (9).”

(4) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy'n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy'n rhoi disgrisiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i'w ddarllen fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu'r awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â'r rhwymedigaeth honno neu'n cael arfer y disgrisiwn hwnnw o ran Cymru.

(4) Mae Erthygl 2 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

- (i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “retained EU law” wedi ei roi yn lle “other Community legislation”;
- (ii) ym mhwyntiau (b) a (c), “Regulation (EC) No 1069/2009” wedi ei roi yn lle “Regulation (EC) No 1774/2002”;
- (iii) ym mhwynt (d), “the Mining Waste Directive (gweler rheoliad 2A)” wedi ei roi yn lle'r geiriau o “Directive 2006/21/EC” hyd at y diwedd;

(20) O.S. 2017/407, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(21) O.S. 2004/1490 (Cy.155).

(22) Diwygiwyd y diffiniad o “cyfleuster gwastraff” gan O.S. 2011/971 (Cy.141) ac O.S. 2016/691 (Cy.189). Ceir diwygiadau eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.

(23) OJ Rhif L 312, 22.11.08, t 3.

(24) OJ Rhif L 150, 14.6.2017, t 1.

- (b) ym mharagraff 3, y geiriau o “Without prejudice” hyd at “Community legislation,” wedi eu hepgor;
 - (c) paragraff 4 wedi ei hepgor.
- (5) Mae Erthygl 5 i’w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.
- (6) Mae Erthygl 6 i’w darllen fel pe bai—
- (a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;
 - (b) ym mharagraff 4—
 - (i) yn y frawddeg gyntaf, “Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, [Commission Regulation \(EU\) No 1179/2012](#) or [Commission Regulation \(EU\) No 715/2013](#)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Where criteria” hyd at “paragraphs 1 and 2”;
 - (ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.
- (7) Mae Erthygl 7 i’w darllen fel pe bai—
- (a) ym mharagraff 1—
 - (i) y frawddeg gyntaf a’r ail frawddeg wedi eu hepgor;
 - (ii) yn y drydedd frawddeg, “shall, subject to paragraph 1A, be binding wedi ei roi yn lle “shall be binding”;
 - (b) ar ôl paragraff 1, y canlynol wedi ei fewnosod—
 - “**1A.** Paragraph 1 is subject to—
 - (a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;
 - (b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;
 - (c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulations 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;
 - (d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990 (lists of waste displaying hazardous properties).”;
 - (c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;
 - (d) ar ôl paragraff 6 y canlynol wedi ei fewnosod—
 - “**6A.** In this Article, the “list of waste” means the list established by Commission [Decision 2000/532/EC](#).”;
 - (e) paragraff 7 wedi ei hepgor.
- (8) Mae Atodiad 3 i’w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, “in the Member States” wedi ei hepgor.
- (9) Ym mharagraff (3) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.”
- (5) Ar ôl rheoliad 2, mewnosoder—

“Ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” yn rheoliad 2

2A.—(1) Yn rheoliad 2(4)(a)(iii), ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” (“*the Mining Waste Directive*” yw Cyfarwyddeb [2006/21/EC](#) Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu, gan ei darllen yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Mae Erthygl 2 i’w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC yn gyfeiriad at yr Erthygl honno o’i darllen yn unol â pharagraff (4) o’r rheoliad hwn;

(b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.

(3) Mae Erthygl 3(1) i’w darllen fel pe bai “Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Article 1(a) of [Directive 75/442/EC](#)”.

(4) At ddibenion paragraff (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i’w darllen fel pe bai—

(a) y cyfeiriad cyntaf at “Member States” yn gyfeiriad at yr Weinidogion Cymru neu Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) ar y diwedd, y canlynol wedi ei fewnosod—

“and “environmental objectives”, in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017 has the same meaning as in those Regulations.”.

(6) Yn rheoliad 7(10) (fel y’i diwygir gan reoliad 4(3)), ar y diwedd, mewnosoder “o’i ddarllen yn unol â pharagraff (11).

(7) Ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

“(11) At ddibenion rheoliad 7(10), mae’r Gyfarwyddeb i’w darllen fel pe bai—

(a) yn Erthygl 2—

(i) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (a)—

“(a) ‘waste’ has the meaning given by Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Article 5 and 6 of that Directive.”;

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (c)—

“(c) ‘hazardous waste’ has the meaning given by Article 3(2) of the Waste Framework Directive.”.

(b) yn Erthygl 3(2), “Without prejudice to existing Community legislation,” wedi ei hepgor.”.

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

8.—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(25) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn is-baragraff (a), ar y diwedd mewnosoder “, ac fel y’i darllenir yn unol â rheoliad 2A”;

(b) yn is-baragraff (b)(i), ar y diwedd mewnosoder “, fel y’i darllenir gydag Erthyglau 5 a 6 o’r Gyfarwyddeb honno”.

(3) Ar ôl rheoliad 2 mewnosoder—

“Ystyr y Gyfarwydddeb Wastraff

2A.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'r Gyfarwydddeb Wastraff i'w darllen yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy'n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy'n rhoi disgresiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i'w ddarllen fel cyfeiriad at yr awdurdod priodol neu'r awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â'r rhwymedigaeth honno neu'n cael arfer y disgresiwn hwnnw o ran Cymru.

(3) Mae Erthygl 2 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

(i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “retained EU law” wedi ei roi yn lle “other Community legislation”;

(ii) ym mhwyntiau (b) a (c), “Regulation (EC) No 1069/2009” wedi ei roi yn lle “Regulation (EC) No 1774/2002” ;

(iii) ym mhwynt (d), “the Mining Waste Directive” wedi ei roi yn lle'r geiriau o “Directive 2006/21/EC” hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff 3, y geiriau o “Without prejudice” hyd at “Community legislation,” wedi eu hepgor;

(c) paragraff 4 wedi ei hepgor.

(4) Mae Erthygl 3(20) i'w darllen fel pe bai “Article 3(10) of the Industrial Emissions Directive” wedi ei roi yn lle “Article 2(11) of Directive 96/61/EC”.

(5) Mae Erthygl 5 i'w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i'w darllen fe pe bai—

(a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;

(b) ym mharagraff 4—

(i) yn y frawddeg gyntaf, “Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, Commission Regulation (EU) No 1179/2012 or Commission Regulation (EU) No 715/2013” wedi ei roi yn lle'r geiriau o “Where criteria” hyd at “paragraphs 1 and 2” ;

(ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.

(7) Mae Erthygl 7 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1—

(i) y frawddeg gyntaf a'r ail frawddeg wedi eu hepgor;

(ii) yn y drydedd frawddeg, “shall, subject to paragraph 1A, be binding” wedi ei roi yn lle “shall be binding”;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“1A. Paragraph 1 is subject to—

(a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;

(b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;

- (c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulations 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;
- (d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990 (lists of waste displaying hazardous properties).”;
- (c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;
- (d) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 6—
 - “6A. In this Article, the “list of waste” means the list established by Commission [Decision 2000/532/EC](#).”;
- (e) paragraff 7 wedi ei hepgor.
- (8) Mae Erthygl 19 i’w darllen fel pe bai—
 - (a) ym mharagraff 1, “national” wedi ei roi yn lle “Community”;
 - (b) ym mharagraff 2, “Wales” wedi ei roi yn lle “a Member State”.
- (9) Mae Atodiad 3 i’w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, “in the Member States” wedi ei hepgor.
- (10) Ym mharagraff (2) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Ystyr y “Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” a “Chyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol”

- 2B.**—(1) Yn rheoliad 2A(3)(a)(iii), ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” (“*the Mining Waste Directive*” yw Cyfarwyddeb [2006/21/EC](#) Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu, o’i darllen yn unol â pharagraffau (2) a (3).
- (2) Mae Erthygl 2 i’w darllen fel pe bai—
 - (a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC yn gyfeiriad at y Gyfarwyddeb honno o’i darllen yn unol â pharagraff (7) o’r rheoliad hwn;
 - (b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.
 - (3) Mae Erthygl 3(1) i’w darllen fel pe bai “Article 3(1) of the Waste Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Article 1(a) of [Directive 75/442/EEC](#)”.
 - (4) Yn rheoliad 2A(4), ystyr “y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol” (“*the Industrial Emissions Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a’r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig)(**26**), o’i darllen yn unol â pharagraffau (5) a (6).
 - (5) Mae Erthygl 3 i’w darllen fel pe bai—
 - (a) ym mhwynt (1)(a), “Article 4(78) of Council Directive 2013/59/Euratom laying down basic safety standards for protection against the dangers arising from exposure to ionising radiation(**27**)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Article 1” hyd at y diwedd;
 - (b) ym mhwynt (10)(b), “United Kingdom” wedi ei roi yn lle “Member State in question”;
 - (c) ym mhwynt (23), “point 1 of the second subparagraph of Article 2 of Council [Directive 2009/158/EC](#) on animal health conditions governing intra-Community

(26) OJ Rhif L 334, 17.12.2010, t 17, fel y’i cywirwyd gan gorigendwm (OJ Rhif L 158, 19.6.2012, t 25).

(27) OJ Rhif L 13, 17.1.2014, t 1, fel y’i cywirwyd gan gorigendwm (OJ Rhif L 072, 17.3.2016, t 69).

- trade in, and imports from third countries of, poultry and hatching eggs(28)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “point 1” hyd at y diwedd;
- (d) ym mhwynt (37), “the Waste Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “[Directive 2008/98/EC](#) of the European Parliament and of the Council of 19 November 2008 on waste”.
- (6) Mae Atodiad 1 i’w ddarllen fel pe bai—
- (a) yr ail baragraff wedi ei hepgor yn y geiriau o flaen pwynt 1;
- (b) ym mhwynt 5.3—
- (i) ym mhwynt (a), yn y geiriau o flaen pwynt (i), “the Urban Waste Water Treatment (England and Wales) Regulations 1994(29)” wedi ei roi yn lle “Council [Directive 91/271/EEC](#) of 21 May 1991 concerning urban waste-water treatment”;
- (ii) ym mhwynt (b), yn y geiriau o flaen pwynt (i), “the Urban Waste Water Treatment (England and Wales) Regulations 1994 wedi ei roi yn lle “[Directive 91/271/EEC](#)”;
- (c) ym mhwynt 5.4, y cyfeiriad at Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC ddyddiedig 26 Ebrill 1999 ar dirlenwi gwastraff yn gyfeiriad at y Gyfarwyddeb Dirlenwi;
- (d) ym mhwynt 6.9, “the EU-derived domestic legislation which transposed [Directive 2009/31/EC](#) in respect of Wales” wedi ei roi yn lle “[Directive 2009/31/EC](#)”;
- (e) ym mhwynt 6.11, “the Urban Waste Water Treatment (England and Wales) Regulations 1994” wedi ei roi yn lle “[Directive 91/271/EEC](#)”.
- (7) At ddibenion paragraff (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i’w darllen fel pe bai—
- (a) y cyfeiriad cyntaf at “Member States” yn gyfeiriad at yr awdurdod priodol;
- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar y diwedd—
- “and “environmental objectives”, in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017, has the same meaning as in those Regulations.”.”
- (4) Yn rheoliad 5(1)—
- (a) yn y lle priodol mewnosoder—
- ystyr “awdurdod priodol” (“*appropriate authority*”) yw Gweinidogion Cymru, CANC neu’r Asiantaeth;”;
- (b) ar ôl y diffiniad o “gwastraff peryglus” (“hazardous waste”) mewnosoder—
- ystyr “y Gyfarwyddeb Dirlenwi” (“*the Landfill Directive*”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor [1999/31/EC](#) ar dirlenwi gwastraff (30), fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU(31), gan ei darllen fel pe bai—
- (a) yn Erthygl 2—
- (i) yn lle pwynt (a) rhodder—
- “(a) ‘waste’ has the meaning given by regulation 2(1)(b) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;”;
- (ii) yn lle pwynt (c) rhodder—

(28) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t 74, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2011/879/EU (OJ Rhif L 343, 23.12.2011, t 105).

(29) [O.S. 1994/2841](#).

(30) OJ Rhif L 182, 16.7.1999, t 1.

(31) OJ Rhif L 328, 10.12.2011, t 49.

- (c) ‘hazardous waste’ has the meaning given in regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.”;
- (b) yn Erthygl 3(2), “Without prejudice to existing Community legislation,” wedi ei hepgor.
- (5) Yn rheoliad 8—
- (a) ym mharagraff (2)—
- (i) hepgorer y geiriau o “gan yr Ysgrifennydd Gwladol” hyd at “yn ôl y digwydd,”;
- (ii) yn lle “ag Erthygl 7(2) o’r Gyfarwyddeb Wastraff” rhodder “â pharagraff (3)”;
- (b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—
- “(3) At ddibenion paragraff (2), penderfynir bod swp penodol o wastraff yn beryglus—
- (a) o ran Lloegr—
- (i) os yw o fath a restrir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 62A(2) o Ddeddf 1990;
- (ii) os yw’n destun penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliad 8 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005(32);
- (b) o ran Gogledd Iwerddon, os yw’n destun penderfyniad gan yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig o dan reoliad 9 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Gogledd Iwerddon) 2005(33);
- (c) o ran yr Alban, os yw’n destun penderfyniad gan Weinidogion yr Alban, am fod Gweinidogion yr Alban o’r farn bod y gwastraff yn amlygu un neu ragor o’r nodweddion peryglus a restrir yn Atodiad III.”.
- (6) Yn rheoliad 9—
- (a) ym mharagraff (2)—
- (i) hepgorer y geiriau o “gan yr Ysgrifennydd Gwladol” hyd at “yn ôl y digwydd,”;
- (ii) yn lle “ag Erthygl 7(2) o’r Gyfarwyddeb Wastraff” rhodder “â pharagraff (3)”;
- (b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—
- “(3) At ddibenion paragraff (2), penderfynir bod swp penodol o wastraff yn wastraff nad yw’n beryglus os nad yw’n destun penderfyniad—
- (a) o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliad 9 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005;
- (b) o ran Gogledd Iwerddon, gan yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig o dan reoliad 10 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Gogledd Iwerddon) 2005;
- (c) o ran yr Alban, gan Weinidogion yr Alban, am fod Gweinidogion yr Alban o’r farn nad yw’r gwastraff yn amlygu unrhyw nodweddion peryglus a restrir yn Atodiad III.”.
- (7) Yn rheoliadau 47(5B) a 48(6B) (fel y’u diwygir gan reoliad 5(2) a 5(3)), yn lle “Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU” rhodder “y Gyfarwyddeb Dirlenwi”.
- (8) Yn rheoliad 60(1), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), hepgorer o “ac” hyd at “Wastraff”.

(32) O.S. 2005/894, a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/988, 2015/1360, 2016/738, 2018/575.

(33) S.R. 2005 Rhif 300; offerynnau diwygio perthnasol yw S.R 2011 Rhif 127 ac S.R 2015 Rhif 288.

Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

9.—(1) Mae Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011(34) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (“*the Waste Framework Directive*”) (fel y’i hamnewidir gan reoliad 6), ar y diwedd, mewnosoder “gan ei darllen yn unol â pharagraffau (3) i (8)”.

(3) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy’n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy’n rhoi disgresiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i’w ddarllen fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â’r rhwymedigaeth honno neu’n cael arfer y disgresiwn hwnnw o ran Cymru.

(4) Mae Erthygl 2 i’w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

(i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “retained EU law” wedi ei roi yn lle “other Community legislation”;

(ii) ym mhwyntiau (b) a (c), “Regulation (EC) No 1069/2009” wedi ei roi yn lle “Regulation (EC) No 1774/2002”;

(iii) ym mhwynt (d), “the Mining Waste Directive (see regulation 2A)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Directive 2006/21/EC” hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff 3, y geiriau o “Without prejudice” hyd at “Community legislation,” wedi eu hepgor;

(c) paragraff 4 wedi ei hepgor.(5) Mae Erthygl 5 i’w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i’w darllen fel pe bai—

(a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;

(b) ym mharagraff 4—

(i) yn y frawddeg gyntaf, “Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, Commission Regulation (EU) No 1179/2012 or Commission Regulation (EU) No 715/2013” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Where criteria” hyd at “paragraphs 1 and 2”;

(ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.

(7) Mae Erthygl 7 i’w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 1—

(i) y frawddeg gyntaf a’r ail frawddeg wedi eu hepgor;

(ii) yn y drydedd frawddeg, “shall, subject to paragraph 1A, be binding” wedi ei roi yn lle “shall be binding”;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“1A. Paragraph 1 is subject to—

(34) O.S. 2011/1014 (Cy.152), a ddiwygiwyd gan O.S.2016/691 (Cy.189); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un yn berthnasol.

- (a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;
 - (b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;
 - (c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulations 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;
 - (d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990 (lists of waste displaying hazardous properties).”;
- (c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;
- (d) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 6—
- “6A. In this Article, the “list of waste” means the list established by Commission [Decision 2000/532/EC](#).”;
- (e) paragraff 7 wedi ei hepgor.
- (8) Mae Atodiad 3 i’w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, “in the Member States” wedi ei hepgor.”
- (4) Ar ôl rheoliad 2, mewnosoder—

“Ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” yn rheoliad 2

2A.—(1) Yn rheoliad 2(4)(a)(iii), ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” (“*the Mining Waste Directive*” yw Cyfarwyddeb [2006/21/EC](#) Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echedynnu, gan ei darllen yn unol â pharagraffau (2) i (4).

- (2) Mae Erthygl 2 i’w darllen fel pe bai—
- (a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC yn gyfeiriad at yr Erthygl honno o’i darllen yn unol â pharagraff (4) o’r rheoliad hwn;
 - (b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.
- (3) Mae Erthygl 3(1) i’w darllen fel pe bai “Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Article 1(a) of [Directive 75/442/EC](#)”.
- (4) At ddibenion paragraff (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i’w darllen fel pe bai—
- (a) y cyfeiriad cyntaf at “Member States” yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru;
 - (b) ar y diwedd, y canlynol wedi ei fewnosod—
- “and “environmental objectives”, in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017 has the same meaning as in those Regulations.”.

28 Chwefror 2019

Hannah Blythyn
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth leol, o
dan awdurdod y Y Gweinidog Tai a Llywodraeth
Leol, un o Weinidogion Cymru

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn (ac eithrio Rhan 2) wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p.16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill yng nghyfraith UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ym maes gwastraff. Mae Rhan 3 yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac mae Rhan 4 yn diwygio is-ddeddfwriaeth.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), ac yn diweddar cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t 3) a Chyfarwyddeb 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff (OJ Rhif L 182, 16.07.1999, t 1).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.